
Llwybr Datblygu'r Gymraeg



2021-22

Darlith 1
Dydd Iau 30ain o Fedi 2021

Tiwtoriaid Iaith:
Bethan Griffiths
bethan.griffiths@pcydds.ac.uk
Jeni Price
j.price@pcydds.ac.uk

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Croeso



Bwriad y sesiwn hon yw trafod:

PRYD?

SUT?

PAM?

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

PRYD?

Bydd sesiynau Cymraeg ar eich amserlen yn ystod y flwyddyn academaidd hon.
(Bydd y mwyafrif wyneb i wyneb ond bydd rhai ar-lein)
Cofiwch wirio eich amserlenni yn gyson rhag ofn bydd newidiadau. *





Dyddiadau'r Darlithoedd:

30/9
7/10
21/10 *(ar-lein)*
4/11
11/11
18/11
25/11
2/12 *(ar-lein)*
7/12
29/3


Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Sut a Phwy?

Tiwtoriaid Iaith:
BA3A Cyfrwng Cymraeg

Bethan Griffiths
bethan.griffiths@pcydds.ac.uk
Jeni Price
j.price@pcydds.ac.uk





Bydd y sesiynau ar-lein ar TEAMS



Holl adnoddau'r darlithoedd ar Moodle
Llwybr Datblygu'r Gymraeg

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Croeso - Dod i'ch adnabod chi

TASG – (cyn y ddarlith nesaf)
Hoffwn i i chi gyflwyno eich hun yn fyr ar Flipgrid y grŵp.

e.e.Eich enw.
Ble rydych chi'n byw?
Pa ysgol Uwchradd aethoch chi?
Eich diddordebau.
Ffaith ddiddorol?



Flipgrid

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Grŵp Jeni



https://flipgrid.com/05bfa682

Flipgrid

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Pam?







Thema 1:
Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg


- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Y blynyddoedd cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-orfodol
- Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Siart 1: Nifer y bobl tair oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg, Cyfrifiad 1911–2011, ynghyd â'r uchelgais erbyn 2050[3]



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Erbyn **2050,** y nod yn y strategaeth ydy:

Cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Erbyn **2050,** y nod yn y strategaeth ydy:



cynyddu nifer yr athrawon
cynradd sy'n gallu addysgu
drwy gyfrwng y **Gymraeg**
o ***2,900*** i ***3,900*** erbyn **2031**
ac i ***5,200*** erbyn **2050**

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Erbyn **2050,** y nod yn y strategaeth ydy:

CYMRAEG

Dysgu
Learn

a chynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y **Gymraeg** o ***1,800*** i ***3,200*** erbyn **2031** ac i ***4,200*** erbyn **2050**

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Cyrraedd miliwn o siaradwyr - rôl i bawb!



https://www.youtube.com/watch?v=f_qaRCf_BM0

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Beth amdanom ni?



"… y system addysg ac hyfforddiant yw'r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg newydd."

(tud 31, Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr)



Cwricwlwm i Gymru 2022

Mae wedi cael ei ddatblygu yng Nghymru gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr, gan ddwyn ynghyd arbenigedd addysgol ac ymchwil a thystiolaeth ehangach.




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf

Y Gymraeg Mewn Addysg – Cynllun gweithredu


Mae gweithlu addysg uchelgeisiol yn hanfodol i weithredu'r cwricwlwm newydd. Byddwn yn helpu ymarferwyr i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a meddu ar yr wybodaeth a'r arbenigedd i ddarparu'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Gymraeg fel pwnc.



https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/y-gymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017%E2%80%9321.pdf

Y Gymraeg Mewn Addysg – Cynllun gweithredu

- cefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2021 fel a ganlyn: – 3,100 o athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 2,900 yn 2015/16)



Llwybr Datblygu'r Gymraeg



- Byddwch chi, fel darpar athrawon, yn derbyn cefnogaeth yn y Brifysgol ac yn yr ysgol wrth ddatblygu eich sgiliau Cymraeg.
- Byddwch chi'n cael eich asesu yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon.
- Fe fydd aelod o staff (mentor Cymraeg) yr ysgol yn mesur eich sgiliau iaith yn erbyn meini prawf y Fframwaith.
- Fe fyddwch chi'n cadw portffolio o ddeunyddiau sy'n cynnig tystiolaeth o'r ffordd rydych chi wedi defnyddio a datblygu'r Gymraeg.

Cyflwyniad i
Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon

B1- CANOLRADD		
GWRANDO	Gallu deall ac ymateb i brif bwyntiau pan fydd rhywun yn siarad yn naturiol am bynciau pob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol, e.e. mewn sgwrs, neu mewn sefyllfaoedd grŵp bach	• Rhyngweithio'n estynedig ac yn bwrpasol gyda'r dysgwyr. Gallu defnyddio'r sgiliau hyn i gynnal sgyrsiau grŵp yn Gymraeg yn eithaf rhugl gyda hyder cynyddol. Gallu adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando) ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd • Gwrando ar eraill ac ymateb yn ystyrlon ac estynedig am bynciau bob dydd gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a chamau nesaf.
LLAFAR	Gallu cynnal a chyfrannu at sgwrs am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â'r ysgol a bywyd pob dydd gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau syml a chymhleth. Gallu disgrifio profiadau, gobeithion a rhoi esboniadau cryno dros eu barn. Yn dechrau adnabod gwallau cyffredin.	• Defnyddio'r Gymraeg mewn gwersi a'r tu allan i wersi yn naturiol a chynyddol hyderus gan ehangu ar fanylion personol a phrofiadau a gafwyd yn yr ysgol yn rhydd a chywir ar y cyfan. • Addasu sgwrs gan ddangos eu bod yn deall y gwahaniaethau rhwng sgwrs ffurfiol ac anffurfiol a sgwrs fwy estynedig â grŵp ehangach, *e.e. defnyddio ti/chi.* • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau syml a chymhleth, a'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, e.e. fy nghalon, ynghyd â defnydd cynyddol gywir o dermau cenedl enwau ac arddodiaid.
DARLLEN	Gallu deall erthyglau neu negeseuon e-bost uniongyrchol am bynciau pob dydd neu bynciau'n ymwneud â'r gwaith. Gallu darllen straeon ac ynganu'n gywir ar y cyfan.	• Darllen yn ystyrlon ar goedd ac arddangos gallu i drafod cynnwys y testun a mynegi barn. • Defnyddio nodiadau'n effeithiol heb ddibynnu'n ormodol arnynt er mwyn llywio'r wers.
YSGRIFENNU	Gallu ysgrifennu paragraffau byr am bynciau bob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol. Yn dechrau adnabod gwallau cyffredin.	• Cyflwyno adborth ysgrifenedig ar dasgau a chyfleu gwybodaeth sy'n dangos ymwybyddiaeth dda o gywair a chywirdeb. Gallu defnyddio cystrawen a gramadeg priodol, a throsglwyddo'r sgiliau i ddysgwyr • Defnyddio amrywiaeth o frawddegau a phatrymau, gan ddefnyddio ffurfiau berfol safonol, *e.e. ffurfiau presennol, gorffennol, negyddol, yr amodol* a threiglo'n gywir gan fwyaf yn arbennig ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, *e.e. am funud, dy fam.*

Cyflwyniad i
Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon

	B2 - UWCH	
GWRANDO	Gallu deall y rhan fwyaf o drafodaethau, hyd yn oed am bynciau anghyfarwydd ac arbenigol e.e. mewn cyd-destun ffurfiol	• Rhyngweithio'n estynedig ac yn hyderus gyda'r dysgwyr gan arddangos dealltwriaeth dda wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando) ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd. • Gwrando ar eraill mewn amrywiol gyd-destunau gan ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol.
LLAFAR	Gallu cyfathrebu gan ddefnyddio ystod o gystrawennau sy'n dangos lefel gynyddol o gywirdeb. Gallu trafod pynciau anghyfarwydd ac arbenigol. Yn gallu mynegi a chyfiawnhau barn. Yn gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	• Defnyddio'r Gymraeg yn naturiol, hyderus a chynyddol gywir ar draws y cwricwlwm, ateb a holi cwestiynau, ehangu sgwrs, gwrando trafod ac ymateb i safbwynt, ystyried a chynnig rhesymau am safbwynt. • Siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, tôn a chryfder y llais, i gadw diddordeb amrediad o wrandawyr, boed yn ddysgwyr neu'n rhieni neu ymwelwyr. • Defnyddio amrywiaeth diddorol o frawddegau a ffurfiau berfol ac ystod o dreigladau yn gywir yn eu cyd-destun, ynghyd â defnydd cywir gan fwyaf o dermau cenedl enwau ac arddodiaid.
DARLLEN	Gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer siaradwyr rhugl, gyda chymorth geiriadur, a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion. Gallu darllen straeon yn eithaf hyderus ac ynganu'n gywir.	• Darllen a dehongli testun ar goedd yn hyderus, trafod cynnwys a chyfeirio at dermau yn ddeallus. • Defnyddio nodiadau'n effeithiol er mwyn llywio'r wers.
YSGRIFENNU	Gallu ysgrifennu paragraffau estynedig am amrywiaeth o bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, efallai gyda chymorth arfau iaith cyfrifiadurol. Yn gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	• Cyflwyno adborth ysgrifenedig ar dasgau gan ysgrifennu'n ymestynnol gan arddangos gwybodaeth dda o gywirdeb, rheolau gramadeg a'r awydd i drosglwyddo hynny i ddisgyblion sy'n ddysgwyr. • Defnyddio amrywiaeth diddorol o frawddegau a phatrymau, ffurfiau berfol safonol, *ac* ystod o dreigladau yn gynyddol gywir gan ddefnyddio strategaethau a chymorth arfau iaith cyfrifiadurol.

Cyflwyniad i
Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon

	C1 - HYFEDREDD	
GWRANDO	Gallu deall ac ymateb i bopeth sy'n cael ei glywed gan gynnwys gwahanol acenion, tafodieithoedd a chyflymder y siaradwr	• Rhyngweithio'n estynedig, yn hyderus ac yn naturiol gyda dysgwyr gan arddangos dealltwriaeth gadarn wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando) ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd. • Gwrando ar ystod o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau, ac ymateb i adwaith y gwrandawyr ac addasu eu hiaith yn ôl y cyd-destun a'r diben.
LLAFAR	Gallu siarad yn estynedig am faterion cymhleth, cyflwyno dadleuon gan ddefnyddio'r cywair priodol. Rhyngweithio ac arwain trafodaethau a sesiynau addysgu estynedig yn gywir gan amlaf. Yn gallu hunangywiro lle bo angen.	• Defnyddio cyfoeth o adnoddau iaith Gymraeg yn naturiol, hyderus a chywir gan fwyaf ar draws y cwricwlwm, gyda'r gallu i ehangu trafodaeth, arddangos gwybodaeth o gywair, cyfleu safbwynt, disgrifio'n fedrus, cymharu, defnyddio geirfa eang gydag ystod o briod-ddulliau • Cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. mynegiant, tôn y llais. • Defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir, ynghyd â defnydd cywir o dermau cenedl enwau ac arddodiaid gyda'r gallu i hunangywiro a chywiro eraill ar lafar yn ôl yr angen.
DARLLEN	Gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus. Gallu darllen straeon i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon.	• Darllen ar goedd yn naturiol ac eglur, dadansoddi testunau a'u his-destunau gan ymateb a chyfleu syniadau'n glir ac mewn ffordd briodol. • Defnyddio unrhyw nodiadau'n effeithiol iawn er mwyn llywio'r wers.
YSGRIFENNU	Gallu ysgrifennu'n estynedig ac yn safonol am faterion cymhleth. Ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau. Yn gallu hunangywiro lle bo angen gan ddangos defnydd cywir o arfau iaith cyfrifiadurol.	• Ysgrifennu darnau estynedig sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy'n crynhoi, gan addasu'r arddull a'r ffurf yn hyderus ar gyfer y darllenydd neu'r gynulleidfa. • Ysgrifennu'n fedrus a chywir tra'n arddangos gwybodaeth dda iawn o reolau gramadeg, atalnodi gan ddefnyddio strategaethau a chymorth arfau iaith cyfrifiadurol i wirio gwaith personol ac eraill.

Cyflwyniad i
Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon

Defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu, wrth gynllunio ac addysgu, er mwyn datblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu y dysgwyr ar y lefel briodol.

AD1	Mae gen i ymwybyddiaeth gyfyngedig o strategaethau addysgu a dysgu iaith.	• Defnydd cyfyngedig o rai arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio • Tystiolaeth gyfyngedig o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr • Defnydd cyfyngedig o strategaethau asesu ar gyfer dysgu • Gallu cyfyngedig i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol • Diffyg gallu i ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD2	Mae gen i ddealltwriaeth o strategaethau addysgu a dysgu iaith. Rwy'n dechrau cymhwyso strategaethau addysgu a dysgu iaith.	• Defnydd **boddhaol** o rai arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio • Tystiolaeth **foddhaol** o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr • Defnydd **boddhaol** o strategaethau asesu ar gyfer dysgu • Gallu **boddhaol** i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol • **Yn anfoddhaol** wrth ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD3	Mae gen i ddealltwriaeth gadarn o strategaethau addysgu a dysgu iaith. Rwy'n gallu cymhwyso rhai strategaethau yn effeithiol.	• Defnydd **effeithiol** o rai arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio • Tystiolaeth **dda** o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr • Defnydd **da** o strategaethau asesu ar gyfer dysgu • Gallu **da** i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol • Gallu ymateb yn **foddhaol** i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD4	Rwy'n gallu defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu yn effeithiol. Yn ymchwilio a chymhwyso'r datblygiadau diweddaraf ym maes caffael iaith.	• Defnydd **effeithiol** o amrediad o arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio • Tystiolaeth **gadarn** o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr • Defnydd **da iawn** o strategaethau asesu ar gyfer dysgu • Gallu **da iawn** i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol • Gallu ymateb yn **dda iawn** i gamsyniadau'r dysgwyr.
AD5	Rwy'n gallu defnyddio amrediad o strategaethau addysgu a dysgu blaengar yn hyderus a hyfedr. Yn gallu arwain a chefnogi ymarferwyr eraill yn y maes.	• Defnydd **cyson ac effeithiol** o amrediad o arddulliau addysgu a dysgu wrth gynllunio • Tystiolaeth **hynod o gadarn** o gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwr • Defnydd **effeithiol iawn** o strategaethau asesu ar gyfer dysgu • Gallu **rhagorol** i gyfleu disgwyliadau, gan gynllunio tasgau realistig, pwrpasol a gwahaniaethol • Gallu ymateb yn **rhagorol** i gamsyniadau'r dysgwyr.

Eich lefelau ar ddiwedd BA2



- Fel ddylech chi fod wedi e-bost oddi wrth y Cyngor Gweithlu
- Angen agor eich Pasport Dysgu Proffesiynol
- Bydd y lefelau yn ymddangos ar waelod y dudalen ‘Fframwaith Cymwyseddau i Athrawon’.
- Unrhyw gwestiynau?

Cyngor Doeth



- Tystiolaeth BERTHNASOL – rhaid i'r dystiolaeth fod yn berthnasol i'r disgrifiadau lefel.
- DIGON o dystiolaeth o'r 4 sgil a'ch gallu o ran y dulliau dysgu ac addysgu, ond peidiwch gorlwytho. Bydd canllaw pellach i ddilyn.
- Cadwch ffeil ar eich bwrdd gwaith 'Portffolio Cymraeg', gydag is-ffeiliau ar gyfer pob sgil – taflwch bethau perthnasol mewn i'r ffeiliau wrth i'r flwyddyn fynd ymlaen.
- Llafar a Gwrando – beth os does dim cyfle yn y gwersi i ddangos fy ngallu?
- Ysgrifennu – cynnwys aseiniad sy'n dangos eich gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg a'ch gallu i gyrraedd lefelau uchaf y sgil darllen.

Cyngor Doeth



- Dysgu ac Addysgu: Ar y lefelau uchaf rhaid i chi ddangos ‘amrediad o arddulliau’ – dewiswch eich tystiolaeth yn ofalus!
- Ydw i’n gwneud cynnydd? Gosodwch eich blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn.
- Bydd gofyn i chi eleni gyflwyno eich tystiolaeth fesul sgil – bydd canllaw o’r mathau o bethau gallwch chi eu cynnwys dan bob sgil ar gael.
- Dangoswch eich hun ar eich gorau yn y portffolio – dewiswch eich tystiolaeth yn ddoeth!

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

Pam?



Meddyliwch am y canlynol:

- Beth yw **eich cryfderau chi** wrth ddatblygu sgiliau Cymraeg y dysgwyr yn eich sector?
- Pa dechnegau newydd (addysgu a dysgu iaith) ddysgoch chi llynedd?
- Pa **sgiliau** ydych chi'n edrych ymlaen fwyaf at eu datblygu eleni?



Adfyfyrio




<u>Erbyn y ddarlith nesaf.</u>

<u>Cwblhewch y ffurflen Forms.</u>
Byddwch yn onest! Dim ond chi a'r tiwtor fydd yn gweld y ffurflen.

https://forms.office.com/r/g60B2XWdh1


Yr laith Gymraeg - Pwysigrywdd Cefndir a Chyd-destun



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG







Mae angen cyfleoedd ar blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer o gyd-destunau i gyfoethogi eu dysgu a'u hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith bob dydd. Byddwn hefyd yn paratoi'r gweithlu i ddatblygu gwerthfawrogiad ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i

Y Gymraeg …




- Mae'r Gymraeg yn un o ieithoedd hynaf Ewrop. Tan y 19G siaradwyd y Gymraeg fel iaith bob dydd gan fwyafrif pobl Cymru.

- O'r ieithoedd a siaredir ar ynysoedd Prydain heddiw, hi yw'r hynaf.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG



Janet Davies, *The Welsh Language – A Pocket Guide* Caerdydd, UWP, 1999

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David


Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Pa ddigwyddiadau hanesyddol cafodd ddylanwad ar yr iaith Gymraeg yn eich barn chi?



TASG - Creu llinell amser

Rhowch y digwyddiadau hyn ar eich llinell amser – ydych chi'n gallu rhoi y dyddiad hefyd?



Ysgol Gynradd Gymraeg gyntaf.

Sefydlu'r Urdd

Tynged yr Iaith Saunders Lewis

Deddf Iaith Gyntaf.

Pleidlais Datganoli / Cynulliad i Gymru

Ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf.

Radio Cymru yn fyw ar yr awyr.

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

S4C yn dechrau darlledu


Sefydlu Mudiad Meithrin

Mesur iaith / Safonau Iaith

Brad y llyfrau Gleision

Llinell Amser yr Iaith Gymraeg

(rhai o'r prif ddigwyddiadau)



1847: Brad y Llyfrau Gleision

1922: Sefydlu'r Urdd

1947: Ysgol Gynradd Gymraeg gyntaf.

1956: Ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf.

1962: Tynged yr Iaith Saunders Lewis

1967: Deddf Iaith Gyntaf.

1971: Sefydlu Mudiad Meithrin

1977: Radio Cymru yn fyw ar yr awyr.

1982: S4C yn dechrau darlledu

1997 Pleidlais Datganoli / Cynulliad i Gymru

2010: Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

2011: Mesur iaith / Safonau Iaith

Syniadau ac adnodd pellach.

